

**Dysgu yn yr  
Awyr Agored  
Cymru**

**Outdoor  
Learning  
Wales**



## **Bwletin Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru Tachwedd 2017**

Mae Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru yn rhwydwaith cenedlaethol a hwylusir gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru yn anelu at gynyddu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru trwy dynnu ar arbenigedd, gwybodaeth ac ysbrydoliaeth gan ystod o bartneriaid, arweinwyr ac addysgwyr.

Nod y bwletin hwn yw rhoi'r diweddaraf i'n haelodau yng Nghymru ar newyddion, prosiectau a mentrau sy'n gysylltiedig â rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol.

### **Y Diweddaraf gan Ddysgu yn yr Awyr Agored Cymru:**

Mae gan eich grŵp rhwydwaith lleol amser o hyd i ymgeisio am y **gronfa prosiect bach** o £300! Gall swm bach fynd ymhell. Dychwelwch y ffurflen cyn diwedd mis Rhagfyr a gallwch ddefnyddio'r arian i brynu adnoddau ar y cyd gan gynnwys llyfrau, cyfarpar tân gwersyll a choginio, cynnal digwyddiad bach lleol neu hyd yn oed dalu am weinyddu cyfarfod grŵp megis lluniaeth, llogi lleoliad, ayyb.

Mae gan bob grŵp yr un amserlen ar gael iddynt i hawlio cronfa prosiect â thema **Blwyddyn y Môr** o £500 lle gallwch ddefnyddio'r arian i gael Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar ddysgu am draethau, yr arfordir neu'r afon, prynu cyfarpar ar y cyd ar gyfer gweithgareddau tarddle i'r môr, cynnal sesiwn ddysgu awyr agored bach sy'n gysylltiedig â'r thema, ayyb.



#### **Cyfarfodydd Grŵp Rhwydwaith:**

**Grŵp:** Gwynedd, **Dyddiad:** 14/11/18, **Lleoliad:** Treborth, **Amser:** 4pm

**Grŵp:** Casnewydd, **Dyddiad:** 29/11/18, **Lleoliad:** Ysgol Gynradd St Andrews, **Amser:** 4pm

**Grŵp:** Caerdydd, **Dyddiad:** 29/11/18, **Lleoliad:** Ysgol Gynradd Llanisien Fach, **Amser:** 4pm

#### **Digwyddiadau:**

Noson Goginio! Croeso i bawb, dim profiad yn ofynnol i ymuno yn yr hwyl.

**Grŵp:** Dysgu yn yr Awyr Agored Bro Morgannwg, **Dyddiad:** 14/11/18, **Lleoliad:** Nightingale Cottage, Porthkerry Park, **Amser:** 4pm

Rhannu Sgiliau. Edrychwch ar yr offeryn Datblygiad Naturiol, sgiliau cyfeiriannu a gwehyddu helyg. Croeso i bawb!

**Grŵp:** Torfaen, **Dyddiad:** 21/11/18, **Lleoliad:** Ysgol Gynradd George Street, **Amser:** 4pm

Cymerwch ran yn y trafodaethau a'r rhwydweithio trwy: **Facebook** -

[www.facebook.com/groups/outdoorlearningwales](http://www.facebook.com/groups/outdoorlearningwales) **Twitter** - [https://twitter.com/\\_OLW](https://twitter.com/_OLW)

[www.outdoorlearningwales.org](http://www.outdoorlearningwales.org)

### **Cyfoeth Naturiol Cymru**



Rhoddodd Sue Williams sgwrs ar fuddion lluosog dysgu yn yr awyr agored i ystafell lawn yn Theatr Reardon Smith yng Nghaerdydd, ochr yn ochr â Kirsty Williams ac Iolo Williams. Mae'r digwyddiad **Siarad yn Broffesiynol** yn ddigwyddiad blynyddol a gyflwynir gan **Gyngor y Gweithlu Addysg** a thema eleni oedd potensial dysgu amgylchedd naturiol Cymru. Cafodd y digwyddiad ei fflmio ac mae ar gael ar Youtube.

Mae staff addysg wedi bod yn cynllunio sesiynau hyfforddi ar Gysylltu â Natur, Asesu Dysgu yn yr Awyr Agored, Cysylltu â Natur am Ddyfodol Iach a Dysgu ar y Traeth yn barod i'r gwanwyn. Bydd llawer o'r rhain mewn partneriaeth gyda Techniquet felly

cadwch olwg ar eu gwefan ar gyfer digwyddiadau i ddod.

Mae mwy o adnoddau dysgu yn yr awyr agored megis cynlluniau gweithgaredd a sesiynau, nodiadau ac arweiniadau gwybodaeth yn cael eu huwchlwytho yn rheolaidd i'r [wefan](#) felly cadwch olwg!

### **Rysáit y mis**

*Sgons Tatws a Madarch*

Cynhwysion:

500g Tatws

25g menyn

100g blawd plaen

100g madarch

Blawd ychwanegol ac olew coginio

Yn gwneud tua 20 sgon



- Pliciwch, torrwch a berwch y tatws hyd nes eu bod yn feddal
- Stwnsiwch y tatws gyda menyn
- Ychwanegwch y blawd a'u cymysgu gyda'i gilydd
- Rhwygwch ddarnau bach a'u gwasgu ychydig yn ddisgiau 1cm o drwch, gan ddefnyddio'r blawd ychwanegol os oes angen.
- Coginiwch ar sgiled poeth ag olew am 3 – 4 munud bob ochr

### **Dyfyniad y mis**

“O oed ifanc iawn, fy wnaeth yr ysgol dorri ar draws fy addysg”

*George Bernard Shaw*

### **Gweithgaredd y Mis**

*Siapiau Natur*

Gall y gweithgaredd syml o edrych am siapiau o fewn natur gyflwyno lawer o gyfleoedd i archwilio'r awyr agored ac mae sawl ffordd o'i wneud.

Cadwch y siapiau yn syml ar gyfer dysgwyr llai abl ac yn fwy cymhleth ar gyfer y dysgwyr mwy abl.

- ✓ Ewch i hela siapiau mwy o fewn yr amgylchedd ehangach e.e. trioglau yn y tirlun, i ganfod y siapau lleiaf yn rhisgl coeden er enghraifft gan ddefnyddio chwyddwydrau o bosibl.
- ✓ Er mwyn ymestyn ar y dysgu, defnyddiwch ddalen gyfrif a gosodwch y dysgwyr yn dimau i hela am siapiau, yna crëwch graff i weld y siâp mwyaf poblogaidd yn y man gwyrdd lleol. Ailadroddwch yr ymarfer mewn man natur gwahanol megis y traeth a chymharu'r canfyddiadau.
- ✓ Darparwch fframiau siâp i ddysgwyr edrych drwyddynt er mwyn ychwanegu safbwynt gwahanol i weld sut y maen nhw'n edrych ar natur ar raddfeydd gwahanol. Tynnwch lun a chrëwch ludwaith o siapiau natur.
- ✓ Crëwch amlinelliadau siâp gan ddefnyddio ffyn, cerrig, pridd, ayb yna defnyddiwch ddeunydd naturiol cyferbyniol i lenwi'r siâp. Ar gyfer dysgwyr mwy galluog, gallwch gymhwyso canrannau i orchuddio'r siâp, e.e. llenwch hanner y siâp, llenwch y chwarteri gan ddefnyddio dail o wahanol liwiau, ayyb

### **Ffaith y Mis**

Wyddoch chi mai'r driw melyn cribog yw'r aderyn llawn dwf lleiaf ym Mhrydain ac mae'n ychydig dros 3 modfedd o hyd?

### **Enw torfol y mis**

Casgliad o ffwlbartiaid

### **Rhywogaeth y Mis**

*Ffwlbart / Mustela putorius*

Mae ffwlbartiaid i'w gweld ar draws Cymru a'u hoff gynefin yw cymoedd a ffermydd ond maen nhw i'w gweld mewn gerddi, coetiroedd isel ac ardaloedd o laswelltiroedd.

Unwaith, arferai ffwlbartiaid fod yn eang ar draws Prydain Fawr, ond fu bron iddynt ddifodi erbyn 1915.

Gyda blew gwarchod tywyll ac isflew melyn ar y corff, mae ganddynt ymddangosiad 'du a melynddu'; wyneb "bandit" bandog: ffroen, blaenau clustiau ac 'aeliau' gwelw, gyda band tywyll llydan o amgylch y llygaid; coesau a bol tywyllach, cynffon blewog byr; mae'r un maint â ffured. Gall gwrywod dyfu i 33-45cm, gyda benywod ychydig yn llai ar 32-39cm. Mae gwrywod yn pwysu tua 0.8-1.9kg, a benywod yn 0.5-1.1kg.

Mae ffuau ffwlbartiaid i'w gweld yn aml mewn tyllau cwningen, yn enwedig yn yr haf, ac maen nhw'n aml yn symud i fuarthau fferm yn y gaeaf, lle gallent ymgartrefu mewn tas wair, o dan siediau ac mewn tomennydd sbwriel. Mae gan ffwlbartiaid diroedd sy'n amrywio yn eu maint yn ôl argaeledd cynefin a bwyd. Ar gyfer gwrywod maen nhw wedi'u mesur yn 16-500 hectar, ac ar gyfer benywod yn tua 25-375 hectar. Ymddengys bod tiriogaethedd yn wannach ymhlith ffwlbartiaid na charlymoliaid eraill, o bosibl oherwydd eu bod yn symud o gwmpas mwy i fanteisio ar ffynonellau bwyd sy'n amrywio yn ôl y tymor. Yn aml mae pentyrrau o sgatiaid wrth ymyl safleoedd y ffuau, ond ychydig o dystiolaeth sydd bod sgatiaid yn cael eu gadael o amgylch y diriogaeth i amddiffyn eu ffiniau. Mae gan ffwlbartiaid chwarennau arogl ar y naill ochr i'r llall i'r anws, ac maen nhw'n cynhyrchu arogl llym, atgas.

Yn yr haf, cwningod yw'r brif ffynhonnell fwyd gan fod ffwlbartiaid yn ddigon bach i'w hela o fewn eu tyllau cwningod. Yn y gaeaf, daw'r llygod mawr cyffredin yn hoff fwyd, a daw safleoedd gyda phoblogaethau da o lygod mawr yn gynefinoedd arferol. Gallai adar gael eu cymryd a brogaod yn y gwanwyn, pan fyddan nhw'n ymgasglu i silio.

Bydd ffwlbartiaid yn byw hyd at 14 o flynyddoedd mewn caethiwed, a rhyw bum mlynedd yn y gwyllt. Maen nhw'n cael un dorllwyth y flwyddyn, gyda 5-10 o rai ifanc yn cael eu geni yn ddall ac yn ddi-flew yn hwyr ym mis Mai a Mehefin. Maen nhw'n dechrau bwyta cig o 3 wythnos, ac yn aros gyda'u mamau am 2-3 mis. Maen nhw'n cyrraedd maint oedolyn erbyn yr hydref, ac yn magu yn flwydd oed. Mae beichiogrwydd yn para rhwng 40-43 o ddyddiau. Nid yw ffwlbartiaid gwrywaidd yn chwarae unrhyw ran uniongyrchol wrth fagu'r rhai bach.




Yn ychwanegol i'w amddiffyniad o dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, yn ddiweddar (2007) mae'r ffwlbart wedi'i ychwanegu at y rhestr o famaliaid Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU, wedi'i warchod fel rhywogaeth bwysig iawn ar gyfer gwarchod amrywiaeth biolegol yn Lloegr o dan Adran 74 y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae darnio cynefinoedd, ciperiaid yn eu hela a chael eu lladd am eu ffwr wedi gostwng eu niferoedd. Gostyngwyd y boblogaeth ffwlbartiaid i tua 5,000, ond bellach mae'n dros 46,000. Mae damweiniau ffordd yn fygythiad mawr gan eu bod yn dueddol o gael eu denu at eitemau sydd wedi'u lladd ar y ffordd am fwyd.

[www.mammal.org.uk](http://www.mammal.org.uk)

### Planhigyn y Mis

*Berwr chwerw blewog / Cardamine hirsuta*

Perlysieuyn blynyddol cyffredin gyda dail crwn sy'n cael ei ystyried yn chwyn gan y rhan fwyaf o arddwyr.



Gall dyfu drwy'r gaeaf, gan aros fel arfer ar ffurf rhoséd gryno yn agos i'r ddaear. Yn y gaeaf, yn aml fe welwch ef yn tyfu ar bridd moel ar welyau blodau a lleiniau llysiâu. Yn perthyn i'r blodyn llefrith hardd, mae berwr chwerw yn blanhigyn llawer mwy di-liw gyda blodau gwyn a dail pluog di-nod. Mae trefn y blodau a'r pennau hadau yn nodweddiadol o aelodau'r teulu mwstard.

Mae gan y berwr chwerw ddull hadau ffrwydro a thrwyddo gall hadau gael eu lledaenu hyd at 1m (3ft) i ffwrdd neu yn dipyn pellach os ydynt yn cael eu cludo gan y gwynt. Gall eginblanhigion ymddangos trwy gydol y flwyddyn fwy neu lai, ond yn bennaf yn yr haf neu'n gynnar yn yr hydref. Gan ei fod yn gallu gwrthsefyll rhew, gall oroesi yn y gaeaf a bydd yn blodeuo wrth i dymereddau godi yn gynnar yn y gwanwyn, gan gynhyrchu sawl cenhedlaeth mewn un tymor.

Mae gan ei ddail a'i flodau flas pupurog, sawrus, blasus y gellir ei ychwanegu at salad y gaeaf i gael blas pupurog. Mae'n gweithio'n dda gyda chaws gafr a betys. Gellir ei ychwanegu hefyd at swps, salsa a phesto.

[www.woodlandtrust.org.uk](http://www.woodlandtrust.org.uk)

[www.rhs.org.uk](http://www.rhs.org.uk)



### Cyrsiau/Digwyddiadau:

***Ariannu i Alluogi Adnoddau Naturiol a Lles***

Bydd [cynllun ariannu](#) newydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi Polisi Adnoddau Naturiol, gan greu cysylltiadau cliriach rhwng adnoddau naturiol Cymru a lles. Bydd grantiau ar gael ar gyfer partneriaethau traws-sector sy'n cyflenwi gwelliannau yn ansawdd yr amgylchedd lleol,

isadeiledd gwyrdd a chadernid ecolegol.

### **LlyG, Coed Cymru a Chyngor Caerffili**

Cwrs fframiau pren yng Nghaerffili

Dyddiad: 12-16/11/18

Lleoliad: Gweithdy Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Aberbargod

Cost: £100 y pen – yn cynnwys hyfforddiant am 5 diwrnod a lluniaeth



### **I Dig Trees**

Mae'r bartneriaeth hon rhwng TCV ac OVO Energy yn cynnig coed am ddim i grwpiau cymunedol.

Cyswllt: [www.tcv.org.uk/communities/i-dig-trees](http://www.tcv.org.uk/communities/i-dig-trees)

### **John Muir**

Mae'r adran The Lost Words wedi ychwanegu lawrlwythiadau poster [Concyr](#) a [Miaren](#) am ddim ochr yn ochr â'r [wybodaeth ac adnoddau](#) am ddim.



### **Cysylltwch â Ni:**

*Karen Clarke*

*Cydlynnydd Cenedlaethol Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru*

*Cyfoeth Naturiol Cymru*

*0300 065 3609 / 07721 302667*

*[outdoorlearningwales@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:outdoorlearningwales@naturalresourceswales.gov.uk)*

### **Cyfraniadau:**

Cyflwynwch awgrymiadau am gynnwys neu eitemau o ddi-ddordeb ar gyfer bwletinau i ddod erbyn 20 o'r mis. Mae'r holl gyflwyniadau yn amodol ar gymeradwyaeth y Cydlynnydd.

**Ymwadiad:** *Nid yw Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru na Chyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am gynnwys, safon na dibynadwyedd y gwefannau, y cyrsiau neu'r adnoddau cysylltiedig yn y bwletin hwn o ffynonellau allanol. Ni ddylid ystyried eu cynnwys yn gefnogaeth o unrhyw fath. Ni allwn warantu y bydd y dolenni hyn yn gweithio bob amser ac nid oes gennym unrhyw reolaeth dros argaeledd y tudalennau cysylltiedig.*

**Dad-danysgrifio:** *Os nad ydych chi'n dymuno bod yn rhan o E-Grŵp Pawb Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru mwyach, gallwch ddad-danysgrifio trwy anfon e-bost at [outdoorlearningwales@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:outdoorlearningwales@naturalresourceswales.gov.uk)*

